Cylchlythyr Gaeaf
Ionawr 2020

Annwyl

Manteisiwch ar y cyfle i ddysgu mwy am weithgareddau Rhentu Doeth Cymru, diweddariadau gan Lywodraeth Cymru a manteisio i'r eithaf ar adnoddau defnyddiol gan ein partneriaid.

DEDDFWERIAETH

Peryglon Blaendaliadau Tai

Mae rhai landlordiaid ac asiantau yn gofyn am flaendal bach gan ddarpar denant i sicrhau eiddo. Mae hyn yn caniatáu i'r landlord neu'r asiant wirio addasrwydd tenant ac mae'n gwarantu bod y tenant wedi ymrwymo i ymgymryd â'r eiddo.

Mae'r gyfraith wedi gosod y swm blaendal uchaf sef dim mwy nag wythnos o rent. Os yw'r swm a gymerir yn uwch na hyn, mae'n daliad gwaharddedig a gellir defnyddio cosbau gorfodi.

O **28 Chwefror** bydd hefyd yn ofynnol i landlordiaid ac asiantau roi gwybodaeth benodol i'r tenant ar yr adeg y cymerir y blaendal.

Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad yr eiddo, manylion cyswllt y landlord/asiant, hyd y contract, y rhent sy'n ddyledus a mwy.

Deddfwriaeth › **Rheoliadau ›** **Canllaw ›**

NEWYDDION

Erlyn asiant a oedd yn rhwystro archwiliad Rhentu Doeth Cymru

Asiant gosod yng Nghaerdydd yn derbyn dros £4,500 mewn dirwyon am fethu â darparu gwybodaeth hanfodol y gofynnodd Rhentu Doeth Cymru amdani mewn archwiliad diweddar.

Darllen yr erthygl ›

RHEOLIADAU DIOGELWCH

Pryd mae angen taenellwyr mewn eiddo rhent?

Mae taenellwyr yn systemau llethu tân awtomatig sydd yn yn cael eu hactifadu o fewn munudau wedi i dân gychwyn. Eu pwrpas sylfaenol yw achub bywydau a lleihau'r risg o ddifrod i'ch eiddo.

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd yn ymwneud â'r gofyniad am taenellwyr mewn tai a fflatiau newydd a rhai wedi'u haddasu.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb defnyddiol.

Disgrifiad o'r eiddo	Gweithgaredd trosi	Angen caniatâd cynllunio?	Angen cymeradwyaeth rheoliadau adeiladu ar gyfer newid defnydd?	Angen taenellwyr?
Adeilad newydd	---	✓	✓	✓
Eiddo domestic presennol	I fflatiau hunangynhwysol	✓	✓	✓
Eiddo domestic presennol	I dy a rennir **heb** gloeon ar drysau ystafell wely	✓*	⊗	⊗
Eiddo domestic presennol	I dy a rennir **gyda** gloeon ar drysau ystafell wely	✓*	✓	✓

**Bydd newid defnydd yn digwydd pan fydd yr eiddo yn dod o fewn y diffiniad o HMO a ddiffinnir yn Adran 254 o Ddeddf Tai 2004. Efallai y bydd angen gofynion ychwanegol y tu hwnt i Ddogfen B Gymeradwy B mewn HMOs sydd angen trwydded.*

Canllawiau ›

ADNODDAU



Ydy'ch eiddo'n bodloni lleiafswm y safon perfformiad ynni sy'n ofynnol?

Cofiwch fod yn rhaid i'r holl eiddo gosod a ddaw o dan ddeddfwriaeth Safon Effeithlonrwydd Ynni Ofynnol (oni bai bod eithriad wedi'i gofrestru) gael sgôr E neu uwch o **1 Ebrill 2020**.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol Cymru i groeswirio data o ffynhonnell data agored TPY i nodi eiddo rhent nad oes ganddynt un ai gofnod o DPY neu sydd â sgôr o F neu G. Caiff y wybodaeth hon ei defnyddio i dargedu gweithgareddau gwella pellach a fydd yn cynnwys camau gorfodi.

Os yw eich eiddo yn wag ar hyn o bryd ac nad ydych yn bwriadu ei osod, nid oes angen i chi wella'r eiddo nes i chi benderfynu ei osod.

I gael gwybod a yw'r ddeddfwriaeth hon yn berthnasol i'ch eiddo, cliciwch yma.

Mwy o wybodaeth ›

Matrics gwahardd Ffioedd Tenantiaid

Mae Tenancy Deposit Scheme wedi datblygu matrics sy'n dangos y gwahaniaeth rhwng gofynion y Gwahardd Ffioedd yng Nghymru ac yn Lloegr. Lawrlwythwch yma

Gweld y matrics ›

Cymorth Credyd Cynhwysol

Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn parhau i wella cymorth sydd ar gael i hawlwyr CC a'u landlordiaid. Gweler y Llwybr Ymholiadau Tai yma.

Mwy o wybodaeth ›

Fforymau Landlordiaid

Mae Fforymau Landlordiaid yn gyfle delfrydol i ddysgu mwy am ddatblygiadau yn y diwydiant ac i gwrdd a rhannu arfer gorau â landlordiaid eraill yn eich ardal.

Digwyddiadau i ddod ›

YSTADEGAU

Data Rhentu Doeth Cymru

Mae'r data y mae landlordiaid yn ei roi wrth Gofrestru bellach yn cael ei ddadansoddi i ddatblygu darlun o'r stoc rhent preifat yng Nghymru. Dros y sawl rhifyn nesaf, byddwn yn rhannu nifer o brif bwyntiau.

A wyddech chi...

- Bod asiantau gosod a rheoli yn rheoli 54% o'r stoc
- Bod 5% o landlordiaid Cymru yn byw y tu allan i'r DG
- Y rheolir 12% o eiddo rhent gan eu landlord a chan yr asiant
- Mai yng Nghonwy mae'r gyfran uchaf o Dai Amlfeddiannaeth

Ystadegau RhDC ›

Diweddariad i'r Polisi Preifatrwydd

Rydym wedi cwblhau adolygiad blynyddol o'n polisi preifatrwydd. Gweld y newidiadau a allai effeithio arnoch chi yma.

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Copyright © 2015-2020

Rhentu Doeth Cymru | Rent Smart Wales
Blwch PO / PO Box 1106
Caerdydd / Cardiff
CF11 1UA

03000 133344
www.rhentudoeth.llyw.cymru
www.rentsmart.gov.wales